Pwyllgor Amaeth a Datblygiad Gwledig

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

# Adolygiad Polisi Ffermio Organig y Pwyllgor

**Argymhelliad Grwp Strategol Organig y Bartneriaeth Bwyd-Amaeth Cymreig i'w gyflwyno 1[af] Mai 2002**

## *Crynodeb*

O fewn cyd-destun y DU, mae Cymru wedi arwain y blaen wrth sefydlu cynllun gweithredu organig a tharged 10% penodol o nwyddau amaethyddol Cymru i fod yn organig erbyn 2005. Gan adeiladu ar fesurau polisi blaenorol, gan gynnwys y Cynllun Ffermio Organig a Gwasanaeth Gwybodaeth Trawsnewid Organig, mae integreiddiad mesurau gwybodaeth, mesurau polisi, a'r farchnad o fewn y cynllun wedi galluogi datblygiad arwyddocaol o'r sector yn y tair blynedd ers ei gyhoeddiad. Defnyddiwyd adnoddau'r Cynulliad Cenedlaethol, WDA ac adnoddau EAGGF (Amc 1, 5b, CDG a.y.y. b) er mwyn cyflawni canlyniadau arwyddocaol, gan gynnwys sefydliad Canolfan Organig Cymru, a'i integreiddiad gyda Cyswllt Ffermio. Er natur atal a chychwyn ariannu CFO yn 1999 a 2000, cynyddodd cynhyrchiant yn ôl y disgwyliadau, tan CTG (FMD) a'r llu o ffermwyr a ddechreuodd drawsnewid yn 1999 gan dderbyn statws organig yn 2001. Achosodd cynnydd triphlyg / pedwarplyg mewn cyflenwad yn 2001 broblemau marchnata arwyddocaol mewn rhai sectorau, gan danseilio hyder y cynhyrchwr mewn trawsnewid, a hynny pan fo'r cynhyrchwyr yn chwilio am gyfleon i oroesi clwy'r traed a'r genau. Mae adolygiad y Pwyllgor felly, yn gyfle amserol i archwilio'r agweddau sydd wedi arwain at y sefyllfa bresennol, a cheisio dynodi atebion posib. Yn sgil gweithrediadau polisi ac amgylchiadau addas, gall y targed 10% gwreiddiol, barhau i fod yn briodol, ac yn un y modd ei gyflawni, ond rhaid ymdriniaeth â'r problemau presennol fod yn flaenoriaeth.

## *Cyflwyniad*

1. Y termau cyfeirio a gyflwynwyd i'r Pwyllgor am gymeradwyaeth yn ei gyfarfod 17eg Ebrill 2002 oedd asesu:

- rhagolygon ffermio organig yng Nghymru,
- posibilrwydd cyflawni targedau Cynulliad Llywodraethol Cymru, ac
- o ganlyniad i hyn, goblygiadau i ddyraniad adnoddau a pholisi gyda'r gyllideb ar gyfer amaethyddiaeth a datblygiad gwledig.

2. Mae'r ddogfen yma'n egluro'r cefndir i ddatblygiad ffermio organig a pholisïau i gynorthwyo ffermio organig yng Nghymru, y DU ac Ewrop; yn dadansoddi'r llwyddiannau hyd yn hyn a rhagolygon y dyfodol, ac yn ystyried agweddau sydd i'w hwynebu yn y tymor byr, canolog a'r tymor hir, a'r gweithrediad posib i ymdrin â hwy.

## *Cefndir*

3. Yn anad dim, mae ffermio organig yn agwedd o amaethyddiaeth sy'n ceisio creu systemau cynhyrchiant integredig hynaws, sy'n gynaliadwy'n economaidd ac a fydd er daioni y pridd, planhigion ac anifeiliaid, iechyd dynol a'r amgylchedd. Mae'r cysyniad wedi bodoli ers y 1920au, ond dechreuodd o ddifrif yn y 1940au gyda sefydliad Cymdeithas y Pridd a llyfrau pwysig gan Howard a Balfour**.**
4. Mae marchnad bwyd organig wedi datblygu ers y 1970au, yn absenoldeb cefnogaeth polisi ar gyfer ffermio organig i raddau helaeth, ac o ran cynnal cynhyrchwyr sy'n cyflawni'r amcanion ehangach yma. Cynorthwyodd parodrwydd y prynwyr/defnyddwyr i dalu prisiau uwch, i'r cynhyrchwyr osgoi arferion a thechnolegau sy'n achosi niwed i'r amgylchedd a niwed amgen, (gweler isod), gan eu digolledu'n effeithiol am fewnoli allanoldebau er mantais ehangach y gymdeithas.
5. Yn y 10 mlynedd diwethaf, mae'r farchnad am fwyd organig wedi datblygu'n gyflym iawn, i'r graddau bod rhai achosion lle mae'r farchnad wedi datblygu i fod yn prif ddiben ei hun yn hytrach nac yn ateb i'r diben, a pheryglon cynhenid mewn perthynas ag amcanion ffermio organig, a hyder y cynhyrchwr a'r defnyddiwr.
6. Mae ffermio organig yn cynnig buddiannau amlwg i'r amgylchedd a chymdeithas. Yn awr mae ymchwil helaeth yn bodoli, gan gynnwys adolygiadau cyffredinol ac astudiaethau unigol, sy'n cadarnhau'r cyfraniad amgylcheddol positif y gall ffermio organig ei wneud o ran bioamrywiaeth, lleihau llygredd a chadwraeth adnoddau, er bod angen dadansoddiad pellach eto ynglyn â'r buddiannau perthnasol yn y mynyddoedd a'r ucheldiroedd.
7. Mae hefyd drwch cynyddol o dystiolaeth sy'n ymwneud ag ansawdd bwyd, iechyd, a datblygiadau gwledig a chymdeithasol, er o ran ansawdd bwyd a iechyd mae'r canlyniadau positif penodol yn anoddach i'w cyffredinoli ac yn ymwneud â nwyddau organig yn gyffredinol. Mae'r drafodaeth am faterion cymdeithasol yn parhau o fewn safonau organig, ond fel rheol mae'r cysylltiadau ynglyn â nwyddau Masnachu Teg o wledydd sy'n datblygu. Yn ddiweddar, o

ystyried ei botensial i fanteisio ar y marchnadoedd gorau a chyfleon ychwanegu gwerth, a thrwy hynny gynorthwyo incymau a chyflogaeth mewn ardaloedd gwledig, gosodwyd pwyslais ar gyfraniad posib ffermio organig at ddatblygiad gwledig.

8. Am y rhesymau a amlinellir uchod, mae ffermio organig wedi derbyn cefnogaeth arwyddocaol ledled Ewrop, yn anad dim yn sgil rhaglenni amaeth-amgylcheddol, gyda phob gwlad yn yr UE a nifer y tu allan iddo, yn darparu cymorth cyfnewid yn ogystal â thaliadau cynhaliaeth neu barhad.
9. Mae pob un o’r gwledydd yma’n darparu taliadau parhad neu daliadau cynhaliaeth oni bai am y DU (er y bydd yr Iseldiroedd yn dilyn yr un esiampl ar ôl 2002). Y rhagdybiaeth y tu ôl i bolisi y DU, yw y dylai’r farchnad gynnal ffermio organig yn dilyn y cyfnod trawsnewid, ond yn y cyd-destun Cymreig yn arbennig rhaid cwestiynu hyn.
10. Dim ond yn y 5 mlynedd diwethaf y bu premiwm arwyddocaol i nwyddau da byw organig, ac mae hyn yn bennaf oherwydd i’r prisiau confensiynol ddymchwel – cyn hyn roedd cynhyrchwyr da byw organig yn dibynnu ar brisiau confensiynol fel ffermwyr da byw eraill, gyda dim ond cnydau yn derbyn premiwm. Mae nifer o’r cynhyrchwyr da byw yn wynebu’r sefyllfa yma unwaith eto – yn y sector llaeth gan i’r prisiau organig fod o dan bwysau, ac yn y sector gig gan i’r prisiau confensiynol wella a’r prisiau organig barhau yn sefydlog.
11. Mae dibyniaeth cyfangwbl ar y farchnad, yn anwybyddu elfennau lles a daioni’r cyhoedd yn sgil cynhyrchiant organig. Nid oes unrhyw fesur amaeth-amgylcheddol yn disgwyl i’r farchnad dalu costau llawn parhau gydag arferion sy’n gyfeillgar tuag at yr amgylchedd yn y tymor hir. Mae’n deg gofyn os y dylid disgwyl i leiafrif o’r defnyddwyr dalu am yr holl fuddiannau sy’n datblygu i gymdeithas gyfan.
12. Fodd bynnag, gan arddel bod y farchnad yn ran pwysig o’r cyfuniad polisi, gosodir mwy o bwyslais ar bolisïau cynyddu-galw yn hytrach na chymell-cyflenwad mewn sawl gwlad yn yr UE. Yn gynyddol integreiddwyd y rhain o fewn cynlluniau gweithredu organig, gydag enghreifftiau o Ddenmarc, Ffrainc, Yr Almaen, Yr Iseldiroedd, Sweden a Chymru.
13. Mae cysyniad y cynllun gweithredu, yn cael ei ddatblygu ymhellach gyda datblygiad cynllun gweithredu ffermio organig yn Lloegr yn dilyn adroddiad Curry, a chynllun gweithredu UE yn dilyn cynhadledd a gynhaliwyd gan Lywodraeth Denmarc ar y pwnc ym mis Mai 2001, a’r galw dilynol i’r Comisiwn Ewropeaidd ddatblygu cynllun o’r math gan Gyngor y Gweinidogion ym Mehefin 2001 (Archwiliwyd datblygiad polisïau ffermio yn Ewrop yn fanwl gan ymchwilwyr PCA, ac mae gwybodaeth pellach ar gael ganddynt).

## Datblygiad y sector organig yng Nghymru

14. Mae hanes hir i’r sector organig yng Nghymru, gyda rhai ffermydd organig yn dyddio o’r 1940au a’r 1950au, a gyda nifer arwyddocaol yn trawsnewid yn y 1970au a’r 1980au. Darparodd y ffermydd yma y sylfaen i nifer o fentrau, ac a wnaeth Cymru’n ganolbwynt y twf organig yn y DU ar y pryd. Roedd y rhain yn cynnwys cwmnïau megis Bwydydd Fferm Organig, (Organig Farm Foods) a Rachels Dairy, cymdeithasau cynhyrchwyr organig megis Cymdeithas Tyfwyr Organig, a Ffermwyr Organig Prydain (sydd eisoes wedi cyfuno gyda Chyndeithas y Pridd a mentrau ymchwil cynnar ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth ac IGER.
15. Yn 1994, lansiwyd y Cynllun Cymorth Organig yn seiliedig ar y ffurf Seisnig, ond ni wnaeth taliadau ALlFf isel (£10/ha) y cynllun yn atyniadol, yn arbennig yng Nghymru a phrin fu’r

diddordeb. (2,355 ha rhwng 1995/6 a 1998/9).

16. Yn 1996, lansiwyd Gwasanaeth Gwybodaeth Trawsnewid Organig (OCIS). Yn wahanol i Loegr, lle nad oedd ADAS ynghlwm â'r gwasanaeth, darparwyd a rheolwyd y gwasanaeth yng Nghymru gan ADAS gyda chymorth Canolfan Ymchwil Fferm Elm a Chymdeithas y Pridd. Er ei ddechreuad, mae mwy na 10% o gynhyrchwyr Cymru wedi cysylltu â llinell gymorth. Paratowyd adroddiad manwl o weithrediad y pum mlynedd cyntaf gan ADAS.
17. Yn 1997, cyhoeddodd MAFF adolygiad o'r Cynllun Cymorth Organig. Arweiniodd yr adolygiad yma at y Cynllun Cymorth Organig diwygiedig, a chynnydd yn lefel y taliadau a chyfyngiad graddfa isaf y taliad i dir pori bras (tir agored Cymru) yn hytrach na'r tir ALlFf i gyd. Fodd bynnag, mewn cyferbyniad â chynlluniau a weithredwyd mewn gwladwriaethau eraill yn yr UE, nid oedd yn daprau cymorth er mwyn parhau â chynhyrchiant organig, dim ond taliad yn ystod y cyfnod trawsnewid.
18. Yn 1998, sefydlwyd Grwp Gweithiol y Diwydiant Organig gan AASG, er mwyn datblygu cynllun gweithredu ar gyfer ffermio organig yng Nghymru, ochr yn ochr â grwpiau tebyg ar gyfer y sectorau llaeth a da byw, Ym Mawrth 1999 cyhoeddwyd y cynlluniau gweithredu yma ac fe'i mabwysiadwyd gan ADSG a'r Bartneriaeth Bwyd-Amaeth Cymreig.
19. Roedd y Cynllun Gweithredu Organig yn cynnwys targed i 10% o nwyddau amaethyddol Cymreig fod yn organig erbyn (diwedd) 2005. Gosodwyd y targed ar sail graddfa twf a photensial a brofwyd mewn gwledydd eraill yn Ewrop, pan bu i nifer o wledydd osod targedau uchelgeisiol a chyflawni twf hyd at 10% o llai na 1% cynt mewn fframwaith 5-10 mlynedd. (Er enghraifft, roedd yr Almaen yn 3% yn 2000 ac â tharged 20% erbyn 2010, Sweden gyda 12% yn 2000 a tharged 20% erbyn 2005 a Denmarc gyda 7% yn 2000 a tharged 12% erbyn 2005). Roedd y Cynllun Ffermio Organig diwygiedig i ddarparu'r sylfaen er mwyn cyflawni'r nod yma.
20. Rhagfynegodd y cynllun gweithredu gyfres o fentrau i ddatblygu'r farchnad er mwyn ymdrin â'r tagfeydd, a chynyddu cyfran y cynnyrch a broseswyd a marchnatwyd yng Nghymru. Sefydlwyd is-grwp, a comisiynwyd adroddiad yn ymdrin â materion datblygu'r farchnad gan y ADC.
21. Pwysleisiodd y cynllun gweithredu bwysigrwydd strategaeth gwybodaeth cyd-drefnus i ategu at fentrau polisi a marchnata. Gan adeiladu ar brofiad 'OCIS' ac mewn partneriaeth ag ADAS, IGER, PCA,Canolfan Ymchwil Fferm Elm a Chymdeithas y Pridd, sefydlwyd Canolfan Organig Cymru gydag arian y Cynulliad Cenedlaethol i weithredu'r strategaeth. Yn ddiweddar ymdrechwyd i integreiddio COC gyda Cyswllt Ffermio. Mae'r elfen yma o'r cynllun gweithredu wedi bod yn llwyddiant o ran lledaenu gwybodaeth i'r cynhyrchwyr, ond fel yr amlygir isod, bydd angen newid ffocws i ymdrin â'r newidiadau yn amgylchiadau'r sector.
22. Pan penodwyd y targed ddiwedd 1998, dim ond 0.3% o ddaliadau a thir Cymreig (a'r DU) a reolwyd yn organig, llawer iawn yn is na chyfartaledd yr UE. Erbyn diwedd 2002 roedd Cymru a'r DU wedi dal i fyny gyda chyfartaledd 3% o'r tir a 2% o'r daliadau a fodolodd yn yr UE. Mewn tair blynedd bu cynnydd deg plyg ym maint y sector organig yng Nghymru, o 1 ymhob 235 o ffermydd organig yn 1998 i 1 am bob 50 yn 2001. Bu'r twf yn gyflymach yng Nghymru nac yn Lloegr, ond yn arafach nac yn yr Alban lle mae ardaloedd mawr o borfeydd bras wedi eu trawsnewid a chyfran y tir a drawsnewidiwyd nawr dros 5%.
23. Mae tabl manwl o'r cynhyrchiant yn ôl rhifau'r daliadau, cynhyrchiant da byw a chnydau, a'r cyfran y mae'n ei gynrychioli o amaethyddiaeth Gymreig yn Tabl 1. Mae cyfartaledd maint y ffermydd sy'n trawsnewid yn 80ha, sydd yn uwch na'r cyfartaledd ffermydd Cymru ar 53ha yn

1999, er bod cyfartaledd y ffermydd sy'n trawsnewid yn 2001 yn llai nac yn y blynyddoedd blaenorol. Mae'r ffigyrau yn dangos y lledaeniad cymharol wastad ledled y gwahanol sectorau, er bod cyfran uchel garddwriaeth Gymreig (gan gynnwys tatws) i'w nodi. Ar sail y data yma, mae'n bosibl cymryd ardal y tir fel procsi ar gyfer targed 10% cynnyrch amaethyddol y cynllun gweithredu ac archwilio os y gellid cyflawni'r targed a sut (gweler isod).

| | ***Cynhyrchiant Organig*** | | | | ***Cyfran amaethyddiaeth Gymreig 1999*** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Diwedd Blwyddyn** | **1998** | **2000** | **2001** | **2002** | **Gwerth 1999** | **1998/9%** | **2000%** | **2001%** | **2002%** |
| Ardal Organig(1000 ha) | | | | | | | | | |
| Glaswellt/ llystyfiant | 2.3 | 6.9 | 25.4 | 28.4 | 961 | 0.2 | 0.7 | 2.6 | 3.0 |
| Porfeydd Bras | 0.5 | 1.5 | 6.5 | 10 | 306 | 0.2 | 0.5 | 2.1 | 3.3 |
| Tir ?r | 0.1 | 0.4 | 1.6 | 1.9 | 47 | 0.3 | 0.9 | 3.3 | 4.0 |
| Garddwriaeth | 0.0 | 0.1 | 0.5 | 0.6 | 5 | 0.9 | 2.6 | 9.6 | 11.6 |
| Cyfanswm ardal organig | 3 | 9.4 | 35.5 | 42.7 | 1493 | 0.2 | 0.6 | 2.4 | 2.9 |
| Gan gynnwys tir trawsnewid | 4 | 40.0 | 45.0 | n/a | 1493 | 0.3 | 2.7 | 3.0 | |
| Unedau | 120 | 429 | 560 | n/a | 28018 | 0.4 | 1.5 | 2.0 | |
| Maint ar gyfartaledd (ha) | 33.3 | 93.2 | 80.4 | n/a | | | | | |
| Buchod Godro | 900 | 2260 | 5200 | 6900 | 278533 | 0.3 | 0.8 | 1.9 | 2.5 |
| Llaeth (miliwn litr) | 4 | 11 | 26 | 34 | 1500 | 0.3 | 0.8 | 1.7 | 2.3 |
| Gyr bridio eidion | 600 | 1800 | 4100 | 5200 | 229692 | 0.3 | 0.8 | 1.8 | 2.3 |
| Defaid ac wyn | 20000 | 60000 | 180000 | 216000 | 11677882 | 0.2 | 0.5 | 1.5 | 1.8 |

Ffynhonnell: Amcangyfrifon Canolfan Organig Cymru ac ystadegau CCC
Mae'r rhain yn ganlyniadau rhagarweiniol yn tarddu o dystysgrifiadau anghyflawn ac ystadegau CFO a GCTO
a dylid felly eu trin gyda rhywfaint o ofal.

24. Erbyn diwedd 2000 roedd y targed 10% yn parhau i fod o fewn cyrraedd, er yr oedi arwyddocaol

yn gyntaf yn 1999 hyd nes i'r Cynllun Ffermio Organig agor mewn gwirionedd, ac unwaith eto yn 2000 fel yr ail gymeradwywyd y Cynllun Ffermio organig ym Mrwsel fel rhan o drawsnewidiad y Rhaglen Datblygiad Gwledig

25. Yna yn 2001, daeth Clwy'r Traed a'r Genau, a bu i'r gweithgareddau yn ymwneud â hysbysu, ardystio, a chofrestru cynhyrchwyr newydd i'r Cynllun Ffermio Organig ddod i ben am y rhan fwyaf o'r flwyddyn. Fel y daeth y clwy o dan reolaeth, gweithredwyd sawl menter gan COC i annog cynhyrchwyr i ystyried cynhyrchiant organig fel opsiwn adfer. Bu i'r ymdrechion yma gael eu cysgodi gan broblemau cynyddol yn y farchnad, yn arbennig o ran llaeth organig, pan y tanseiliwyd hyder y cynhyrchwr i drawsnewid yn ddifrifol, yn arbennig gan i'r farchnad ddarparu'r unig ffurf o gymorth tymor-hir ar gyfer cynhyrchiant organig yn y DU.

## Y farchnad ar gyfer nwyddau organig Cymru

26. Mewn termau cyffredinol, rhaid ystyried yr anawsterau a fu yn 2001 yng nghyd-destun a) Clwy'r Traed a'r Genau a b) 'tagfeydd' y trawsnewidwyr a oedodd dechrau trawsnewid hyd nes i'r Cynllun Ffermio Organig newydd fod ar gael yn 1999 gan ennill statws organig yn dilyn cyfnod trawsnewid 2 flynedd yn 2001. Golygodd hyn i ardal y tir a oedd â statws organig lawn yng Nghymru gynyddu 300-400% yn 2001, a chynnydd tebyg mewn mannau eraill yn y DU. Mae cynnydd pellach yn y cyflenwad ar y gweill ar gyfer 2002, fel y mae cynhyrchwyr a ddechreuodd drawsnewid yn 2000 yn cyrraedd, ond wedi hyn mae'r lleihad yn y raddfa yn 2001 yn golygu y gallai diffygion cyflenwad fodoli yn 2003/2004.
27. Y sector llaeth organig yng Nghymru a effeithiwyd waethaf gan y problemau presennol, gyda nifer o gynhyrchwyr yn cael eu gorfodi i werthu rhan fwyaf o'u llaeth mewn marchnadoedd confensiynol. Bu i gyfartaledd y pris a dderbyniodd y cynhyrchwyr mewn marchnadoedd sefydledig ddisgyn o 29 i 24 cyl ac mewn rhai achosion roedd cynhyrchwyr yn cael cynnig cyn lleied a 21 cyl. Mae cynnydd cynhyrchiant Cymreig o 11 i 26 miliwn litr yn 2001 yn amlwg yn ffactor cyfrannol, y dylid ei ystyried yng nghyd-destun cynhyrchiant cyflawn y DU yn 1999/00 o 33 miliwn litr. Gellid priodoli rhan o'r broblem i ddyraniad y gadwyn gyflenwi, gyda nifer o grwpiau gan gynnwys cymdeithasau cydweithredol cynhyrchwyr cystadleuol nawr yn cyflenwi llaeth organig o Gymru, ac mae achos amlwg am well cyd-drefniant a chydweithio rhwng grwpiau cynhyrchu. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad yw hyn yn broblem i'r farchnad organig yn unig - mae'r sector llaeth yng nghanol cyfnod o ail-strwythuro arwyddocaol, ar lefel y cynhyrchwyr ac yn y gadwyn gyflenwi, ac mae prisiau y cynhyrchwyr confensiynol hefyd wedi gostwng yn arwyddocaol yn y misoedd diweddar.
28. Ni effeithiwyd y sector gig mor ddifrifol gan gynnydd yn y cyflenwad, ond nid yw heb ei broblemau. Daeth anawsterau difrifol gyda marchnata wyn ysgafn i'r amlwg yn hydref 2001, fel yr oedd archfarchnadoedd yn ymateb i waharddiad allforio CTG ac yn hepgor nwyddau organig o'r silffoedd a hyrwyddo wyn ysgafn confensiynol. Ers hynny mae'r marchnadoedd wedi gwella, er bod rhai problemau marchnata wyn ysgafn yn parhau. Mae prisiau wyn ac eidion yn parhau oddeutu £2.30-£2.50. (Mae prisiau confensiynol wyn ar gyfer y farchnad wyn cynnar y Gwanwyn hefyd wedi dychwelyd i'r lefelau yma, gan ddangos unwaith eto sut i raddau helaeth y mae'r premiwm organig yn ganlyniad prisiau confensiynol isel yn hytrach na phrisiau organig uchel). Yn ddiweddar mae rhai cynhyrchwyr wedi profi anawsterau yn gwerthu eu gwartheg

eidion, ond nid yw’n amlwg ar hyn o bryd os oedd hyn yn sgil methiant hysbysu’r prynwyr bod cyflenwad ar gael, neu’n adlewyrchiad o broblem sy’n datblygu. Er llwyddiant cwmnïau megis ‘Welsh Hook’ a ‘Graig Farm’ yn eu datblygiad o’r farchnad, mae dyrannu yn y gadwyn gyflenwi hefyd yn fater yn y sector gig organig y mae angen ei wynebu.

29. Y sector garddwriaeth organig sydd wedi ei sefydlu hiraf yng Nghymru, gyda Bwydydd Fferm Organig yn llywodraethu cyflenwad nwyddau i’r archfarchnadoedd, ac amrywiol gynlluniau cyffredin a mentrau marchnata lleol eraill wedi eu datblygu gan gynhyrchwyr llai. Bu rhai esiamplau o or-gyflenwi mewn rhai nwyddau penodol yn 2001, er enghraifft tatws, sydd eto, yn ymddangos fel petai’n adlewyrchu methiant nifer o gynhyrchwyr i gynllunio’r marchnata gyda phrynwyr cyn eu cynhyrchu. Mae sefydliad Grwp Strategol Garddwriaethol newydd, ac is-grwp garddwriaeth organig sy’n ei gysylltu gyda’r Grwp Strategol Organig, yn darparu modd i gynllunio datblygiad garddwriaeth organig yng Nghymru.
30. Yn y bôn, cylchdro methiant a ffyniant ydyw o ran cyflenwad, yn gyfunol a’r raddfa gyfnewid bresennol sy’n ffafrio mewnforion dros gynnyrch a gynhyrchwyd gartref. Er bod graddfeydd y galw am nwyddau’n arafu, fel yr oeddem yn ei ddisgwyl fel mae’r sector yn cynyddu, mae’r farchnad yn parhau i dyfu ac mae amryw o adroddiadau yn datgan twf o 35% yn 2000 (gwerth £800 miliwn o werthiant adwerthu yn y DU) a 25-30% yn 2001 (hyd at £1 biliwn a mwy). Mae Tesco yn unig yn targedu £1 biliwn mewn gwerthiant organig erbyn 2005 ac wedi llwyddo twf o 30% i £240 miliwn yn 2001.
31. Yng nghyd-destun gorgyflenwad rhai nwyddau, mae ymddygiad rhai archfarchnadoedd pan yn prynu yn achos pryder, gan i brisiau’r cynhyrchwr ddisgyn islaw costau cynhyrchu oherwydd y mewnforion rhatach sydd ar gael. Mae arferion megis rheolaeth categori a chynnig dros y we am gytundebau yn creu problemau ychwanegol i’r cyflenwyr bychain arbenigol. Mae angen am ryngweithiad positif gydag archfarchnadoedd er mwyn sicrhau ymroddiad tymor-hir i ddatblygiad y sector mewn modd cyd-drefnus a chydweithredol. Efallai y bydd cyfle i CCC, ADC a’r Bartneriaeth Bwyd-Amaeth hyrwyddo hyn.
32. Mae rhywfaint o gyfle i ehangiad y farchnad gael ei arwain gan leihad ym mhrisiau’r defnyddiwr, ond ni ddylid ystyried hyn fel arwydd neu gyfiawnhad yng ngostyngiad prisiau’r cynhyrchwr. Mae potensial arwyddocaol ar gyfer arbedion maint yn nosbarthiad a marchnata nwyddau organig, ac mewn sawl achos mae pris y cynhyrchwr ond yn cynnwys rhan fechan o gyfanswm y pris terfynol. Pam ddylai y defnyddiwr dalu 25-30 c yn fwy am litr o laeth organig, pan fo’r cynhyrchwr sy’n gyfrifol am y rhan ‘organig’ o’r broses, ddim hyd yn oed yn derbyn premiwm 10c y litr?
33. Hyd yn oed os nad yw’r farchnad yn cynyddu’n sylweddol yn y tymor byr neu ganolig, mae cyfle arwyddocaol ar gyfer amnewid mewnforion. Yn ôl adroddiad Bwyd a Ffermio Organig Cymdeithas y Pridd yn 2001, mewnforiwyd 85% o’r ffrwythau a llysiau, 80% o’r grawnfwyd, 35% o’r nwyddau llaeth a 45% o’r cig a werthwyd yn y DU yn 2000/01. Yn y tymor hir, byddai unrhyw ostyngiad yng ngwerth y bunt petai’r DU yn ymuno â’r Euro yn ffafrio cynhyrchwyr y DU yn nhermau potensial amnewid mewnforion.
34. Byddai buddiannau amnewid mewnforion yn cynyddu yn sgil mwy o gyfleusterau prosesu addas i ddelio â chynnyrch organig Cymreig, gan ar hyn o bryd mae’r mwyafrif o gynnyrch organig Cymru yn gadael Cymru fel cynnyrch craidd i’w werthu mewn marchnadoedd yn Lloegr. Ynghlwm i hyn mae’r potensial ar gyfer datblygu marchnadoedd cartref (Cymreig).

35. Mae posib y bydd rhywfaint llai o bwysau oddi wrth fewnforion a hyd yn oed cyfle i allforio yng nghyd-destun twf cyflym yn y farchnad Almaenig yn sgil argyfwng BSE yno yn 2000, a newid cyfeiriad yn y polisi amaethyddol o ganlyniad i hyn. Yn 2001 bu i archfarchnadoedd brynu nwyddau organig yn gyflym iawn gan gynnwys disgowntwyr, gan gynrychioli newid arwyddocaol yn y sefyllfa flaenorol pan 25% yn unig o nwyddau organig a werthwyd drwy'r archfarchnadoedd yn yr Almaen, o'i gymharu gyda 70% a mwy yn y DU.
36. Mae cynlluniau llywodraeth yr Almaen am ymgyrch i hyrwyddo'r logo unedig a darparu gwybodaeth i'r defnyddwyr yn 2002 a 2003 (23 miliwn EUR o gyllideb gyflawn mentrau y cadwyni cyflenwi organig o 70 miliwn EUR yn y cyfnod yma) yn debygol o annog galw a gofynynion pellach yn yr Almaen am fewnforion.
37. Mae'r dadansoddiad yn y rhan yma yn dangos er bod problemau ar hyn o bryd, mae nifer o gyfleon i fanteisio arnynt er mwyn gwella'r sefyllfa, ac mae angen mentrau polisi er mwyn cynorthwyo hyn.

## A oes modd cyflawni'r targed 10%?

38. Mae Ffigwr 1 yn dangos graddfa'r twf roedd yn angenrheidiol o'r 0.3% dechreuol ar ddiwedd 1998 er mwyn cyflawni 10% erbyn diwedd 2005. Dangosir y llinell uniongyrchol a'r llwybrau ehangu esbonyddol, mae patrwm y twf esbonyddol yn adlewyrchu tueddiadau ar lefel Ewropeaidd, er yn ymarferol mae gwledydd unigol, megis Cymru wedi profi cyfnodau o dwf cyflym iawn a ddilynwyd gyda chyfnodau cydgyfnerthiad cyn i dwf newydd ddigwydd. Roedd gwir dyfiant yn 1999 a 2000 yn agos iawn i'r llinell twf uniongyrchol ac yn llawer mwy na raddfa twf blynyddol o 65% sydd ei angen i gyflawni 10% erbyn 2005, ond yn amlwg mae wedi lleihau yn 2001.

39. Er yr arafu, a’r cyflymu mae cyflawni’r targed yn parhau i fod yn bosibl. Fel y dangosir yn Ffigwr 2. byddai angen trawsnewid 26,000 ha yn flynyddol er mwyn cyflawni’r targed 10% neu 150,000 ha erbyn 2005. Hyd yn oed gyda graddfa twf y llinell uniongyrchol o 21,000 bob blwyddyn, neu raddfa twf esbonyddol blynyddol llai, sef 25% sy’n gyfwerth â’r cyfartaledd Ewropeaidd, byddai modd cyflawni’r targed erbyn diwedd 2006. Byddai cyfanswm y gost o gyflawni hyn gyda’r cynllun ffermio organig presennol, gan dybio cost o £350/ha dros bum mlynedd oddeutu £52 miliwn (£15 miliwn ohono eisoes wedi ei glustnodi), gan gynnwys y cyfnod y tu hwnt i 2005 pan fydd taliadau CFO yn parhau’n ddyledus.

40. Yn realistic, fodd bynnag, mae cyflawni'r mathau yma o raddfeydd twf yn parhau'n sialens, a bydd nifer o fentrau polisi newydd yn angenrheidiol. Yn amlwg, dylai un ffocws fod yn delio â phroblemau marchnata presennol, ond efallai yn gyferbyniol yn yr amgylchiadau presennol, mae hefyd angen dybryd i ailadeiladu hyder y cynhyrchwr mewn trawsnewid er mwyn i'r prinderau beidio ailymddangos yn 2004/2005.

## Mentrau polisi

41. Tra ei bod yn ddeniadol cyfiawnhau cymorth ar gyfer ffermio organig yn nhermau dewis y defnyddiwr a dadleuon y diwydiant 'ifanc', yn anad dim mae ffermio organig yn fesur amaeth-amgylcheddol sy'n darparu nwyddau cyhoeddus, ac mae rhaglenni amaeth-amgylcheddol yr UE wedi darparu'r brif sylfaen er mwyn darparu'r cymorth yma. Rhaid ystyried o ddifrif yr achos a gyflwynir uchod sef y dylid ystyried y farchnad fel modd i gynnal mentrau amaeth-amgylcheddol yn hytrach na chynnal yr amcan ei hun. Rhaid hefyd i'r cydbwysedd rhwng dibyniaeth, a pharodrwydd y defnyddiwr i dalu o fewn y farchnad a chymorth y trethdalwr, fod yn briodol.
42. Ar lefel Ewropeaidd, adlewyrchir y ddau begwn yn y polisïau a fabwysiadwyd yn Yr Iseldiroedd a Sweden. Mae'r Iseldiroedd wedi mabwysiadu ffocws farchnad gref ac o 2002 ymlaen, bydd yn diddymu taliadau amaeth-amgylcheddol uniongyrchol i ffermwyr organig. Yn 2000, dim ond 1.4 o'r tir roedd yn cael ei reoli'n organig. Mewn cyferbyniad mae Sweden yn cefnogi ffermio organig fel mesur amaeth –amgylcheddol pur, gyda dim angen am dystysgrifiad neu gyswllt â

marchnadoedd organig. Call cynhyrchwyr organig ddewis tystysgrifo a marchnata gyda phremiwm os ydynt yn dymuno. Dau ganlyniad i hyn yw datblygiad mwy trefnus o'r marchnadoedd a'r lefel mabwysiadu uchaf mewn ffermio organig yn Ewrop (12%), er mai dim ond hanner hyn sydd wedi eu tystysgrifo.

43. Mae achos amlwg i ystyried gweithrediad taliadau parhad ar gyfer cynhyrchiant organig am resymau amaeth-amgylcheddol. Byddai hyn yn cyfrannu'n helaeth at symud baich y taliadau am nwyddau cyhoeddus oddi wrth y defnyddwyr unigol at y trethdalwyr, a byddai'n darparu cynhyrchwyr gyda sylfaen well o ran hyder ym mhotensial hyfywedd tymor hir cynhyrchiant organig, gan leihau'r pryderon o fod yn ddiymgeledd petai'r farchnad yn dirywio.
44. Ni fyddem yn derbyn achos y diffyndollwyr a fabwysiadir gan rai, sef y dylid cymell yn erbyn trawsnewid pellach er mwyn diogelu'r farchnad i'r cynhyrchwyr presennol. Mae hyn yn wrth-gynhyrchiol yn nhermau potensial amgylcheddol a buddiannau er daioni'r cyhoedd, ac nid yw er budd datblygiad ac ehangiad tymor tir y farchnad, sydd angen lefelau digonol o gyflenwad o ran twf ac amnewid mewnforion.
45. Gallai cymorth er mwyn parhad fod ar ffurf gradd stiwardiaeth organig fel rhan o gynllun amaeth-amgylcheddol cyffredinol – mae cynlluniau ar gyfer hyn ar y gweill yn Lloegr ac yn debygol o fod yn nodwedd yng Nghynllun Gweithrediad Organig Lloegr sydd yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Mae cynlluniau tebyg yn cael eu hystyried gan bwyllgor amaeth-amgylcheddol ARAD a sefydlwyd yn ddiweddar. Dylai casgliadiau'r mater yma fod yn flaenoriaeth flaenaf i'r adolygiad canol tymor yn ogystal â defnydd y gronfa modwleiddio.
46. Tra nad ydym mewn safle i gynnig lefel cymorth benodol, byddai cost 150,000 ha gyda £100/ha y flwyddyn yn £15 miliwn yn flynyddol unwaith y byddai'r targed 10% wedi ei gyflawni. (Byddai cyfanswm y swm sydd ei angen yn gyfesur â'r raddfa tâl gwirioneddol a benderfynwyd). Yn y tymor byr, byddai'r ardaloedd tir cymharol fychan (ca. 10,000 ha) nad ydynt yn gymwys am y cynllun ffermio organig presennol angen £1 miliwn yn flynyddol gyda £100/ha. Byddai hyn yn bosibl gyda chyllid presennol CFO o ystyried lefelau isel y cynhyrchwyr organig. Felly, ni fyddai angen aros am weithrediad llawn yr adolygiad canol tymor am benderfyniad ynglyn â hyn.
47. Mae nifer o fesurau penodol eraill y gellid eu gweithredu i ddarparu cymorth penodol i'r cynhyrchwyr. Cynnwys y rhain:
    - Gwneud cynhyrchwyr organig yn gymwys am Grantiau Rheolaeth Gwastraff Fferm gan i ddeddfwriaeth organig osod yr un cyfyngiadau ag anghenion 'NVZ'.
    - Cydnabod lleihad sylweddol y perygl o BSE mewn gyrroedd organig, a'r cyfyngiadau rheoli BSE ychwanegol a osodwyd gan safonau organig er mwyn cysylltu cynhyrchiant organig i'r cynllun gwarantu cig eidion, sydd felly'n llacio'r rheol 30-mis.
    - Cefnogi camau ar lefel Ewropeaidd i ddiddymu cyfyngiadau cynhyrchiant ar gyfer cynhyrchwyr organig, yn arbennig tir a neilltuwyd yn orfodol (ond nid yn wirfoddol).
    - Sicrhau bod blaenoriaeth yn cael ei roi i gynhyrchwyr organig o ran dyraniad cwota buchod magu o'r gronfa genedlaethol, gan gydnabod rheolaeth parasitiaid a'r buddiannau amgylcheddol y gellid eu cyflawni gyda chydbwysedd gwell rhwng defaid a gwartheg yn y mynyddoedd a'r ucheldiroedd.
    - Ystyried os y dylid targedu rhan o'r gronfa ddefaid cenedlaethol tuag at ffermwyr organig.
    - Yn y tymor byr, ystyried ymestyn atodiad 10% HFA ar gyfer cynhyrchiant organig i 20%, hyd nes adolygiad ac integreiddiad posib HFA gyda mesurau amaeth-amgylcheddol.

48. Rydym yn cymeradwyo ac yn annog Cynulliad Llywodraethol Cymru yn eu cefnogaeth barhaol i Gymru sy'n rhydd o OAE(GMO), ac yn gofyn am gefnogaeth pellach er mwyn sicrhau nad yw datblygiadau OAE (GMO) yn gwrthdaro ac yn tanseilio datblygiad posib y sector organig.
49. Yr ail agwedd bwysig ar gyfer mentrau polisi yw sefydlogi a datblygu marchnadoedd ar gyfer nwyddau organig. Mae cefnogaeth i grwpiau cynhyrchu, a grantiau prosesu a marchnata eisoes ar gael drwy'r WDA, a dylai hyn barhau, ond mae angen gofal er mwyn osgoi rhaniadau yn y gadwyn gyflenwi yn hyn o beth. Dylai cefnogaeth grwpiau cynhyrchu newydd fod yn gyson gydag agwedd strategol tuag at ddatblygu'r farchnad, ac yn cynnwys yr egwyddor o gydweithrediad estynedig rhwng cynhyrchwyr, tystysgrifwyr ac o fewn cadwyni cyflenwi.
50. Gellid cefnogi'r mentrau yma yn sgil gwell gwybodaeth o'r farchnad a dosbarthiad o'r wybodaeth. Mae rhan o hyn o fewn datblygiadau Cyswllt Ffermio presennol, gan gynnwys penodi swyddog gwybodaeth marchnad yng Nghanolfan Organig Cymru. Fodd bynnag, mae angen i'r gwelliannau yn yr ystadegau sydd ar gael, gynnwys gweithrediad ar ran yr asiantaethau ystadegau swyddogol, gan gynnwys y Cynulliad Cenedlaethol. Mae angen gwella data y cyfrifiad er mwyn dynodi lefelau cynhyrchiant organig, ac mae cyfle i archwilio cyfleon eraill o ran gwella'r data sydd ar gael mewn rhannau eraill o'r gadwyn fwyd.
51. Mae potensial arbennig mewn menter gyhoeddusrwydd gydag arddull Almaenaidd er mwyn esbonio'r term organig, beth mae tystysgrifiad organig yn ei olygu a beth y gall y defnyddiwr ei ddisgwyl o fwydydd organig. Er nad oes logo unigol yn y DU, rheolir y term 'organig' gan reoliadau, ac gallai fod yn ffocws ymgyrch wybodaeth. Byddai'r pwyslais ar wybodaeth ffeithiol, ac felly ni fyddai rhaid i gynhyrchwyr eraill ei ystyried yn anfanteisiol.
52. Mae hefyd potensial am fentrau caffaeliad cyhoeddus sy'n canolbwyntio ar fwydydd organig lleol. Sefydlwyd cynllun arbrofol gyda Chyngor Sir Powys, Cymdeithas y Pridd a Phrifysgol Caerdydd, a allai ddarparu model am weithrediad ehangach a chefnogaeth gan y Cynulliad Cenedlaethol ac awdurdodau lleol.
53. Yn fwy cyffredinol, mae cyfle arwyddocaol am wella llif gwybodaeth, gan ddatblygu ymhellach darpariaeth yr wybodaeth presennol i gynhyrchwyr drwy Ganolfan Organig Cymru, y Gwasanaeth Gwybodaeth Trawsnewid Organig a Chyswllt Ffermio, a thrwy ymestyn rôl Canolfan Organig Cymru i gynnwys ystod eang o wybodaeth addysgol cyhoeddus a gweithgareddau gwybodaeth i'r defnyddwyr – mae'r cynigion ar gyfer y gwaith yma eisoes ar y gweill. Mae'n hanfodol sicrhau adnoddau Canolfan Organig Cymru a GGTO (OCIS), y ddau yn rhannau hanfodol i'r cynllun gweithredu gwreiddiol dros y cyfnod 2003-2006.
54. Byddem yn cefnogi datblygiad grwpiau organig annibynnol yng Nghymru er mwyn cynnal mentrau lleol ar lefel y cynhyrchwr, y defnyddiwr a lefelau eraill. Mae trafodaethau gyda'r ADC eisoes ar y gweill er mwyn sicrhau adnoddau i ddechrau'r gwaith.
55. Bydd gan menter ddiweddar y Comisiwn Ewropeaidd i ddatblygu cynllun gweithredu UE ar gyfer ffermio organig, er mwyn darparu sylfaen ar gyfer bolisïau penodol ar gyfer ffermio organig yng ngham nesaf adolygiad y CAP yn dilyn Agenda 2000, a goblygiadau ar gyfer datblygiadau polisi posib yng Nghymru y tu hwnt i 2006. Mae gennym gyswllt uniongyrchol gyda'r grwp gweithio, a ddylai cynorthwyo i sicrhau bod y mentrau datblygu yn gytûn.
56. Yn olaf, rhaid dechrau trafodaethau'n fuan ynglyn â natur ail gynllun gweithredu organig i Gymru, a thargedau priodol yn ôl y llwyddiannau hyd yn hyn a datblygiad fframwaith bolisi.